# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DROS MICROSOFT TEAMS
## AR DDYDD MERCHER 24 CHWEFROR AM 10.30AM

PRESENNOL:

Y Cynghorwr P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelwch y Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S Morgan, (Economi a Menter), L Phipps (Tai a Lleoedd), J Ridgewell (Yr Amgylchedd ac Isadeiledd), E Stenner, (Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

C Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau)

Hefyd yn bresennol:

L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a'r Swyddog Adran 151), S.Richards (Pennaeth Cynllunio Addysg a Strategaeth), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), R Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Gyrrwr) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Y Cynghorwyr C. Mann, T. Parry, J. Pritchard, ac A. Whitcombe.

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ond ni ymunodd C. Harrhy (Prif Weithredwr) â'r cyfarfod hyd nes i eitem 7 gael ei thrafod, oherwydd ymrwymiad i gyfarfod blaenorol.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau) ddiddordeb personol yn eitem 5 o'r agenda - Trosglwyddo Gwyliau Blynyddol 2020 am ei fod am

drosglwyddo gwyliau blynyddol (a oedd wedi'i drafod gyda'r Prif Weithredwr) a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth.

## 3. CABINET - 10 IONAWR 2021

PENDERFYNWYD bod y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10 Ionawr yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 24 Chwefror 2021 a 24 Mawrth 2021. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet..

## 5. TROSGLWYDDO GWYLIAU BLYNYDDOL 2020

Roedd yr adroddiad yn chwilio am benderfyniad Cabinet o ran gweddillau gwyliau blynyddol

Nodwyd bod Polisi Gwyliau Blynyddol y Cyngor yn datgan:

*3. Dylid cymryd hawl gwyliau blynyddol gweithiwr yn y flwyddyn wyliau lle chafodd ei chasglu. Gall gweithwyr trosglwyddo i fyny at bum diwrnod o wyliau blynyddol i'r flwyddyn wyliau ddilynol gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan eu rheolwr. Dylai'r gwyliau sy'n cael eu trosglwyddo gael eu defnyddio cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn wyliau newydd.*

Nododd y Cabinet bod y pandemig wedi effeithio ar argaeledd staff mewn rhai gwasanaethau, gan arwain at staff yn cytuno i weithio trwy gyfnodau o wyliau oedd wedi eu cynllunio ac felly yn dangos gweddilliau dros y 5 diwrnod ar ddiwedd y flwyddyn wyliau.

Gofynnwyd i'r Cabinet gydnabod ymroddiad y staff gyda'r gweddillau gormodol hyn, gan y byddai anawsterau wedi bod wrth ddarparu gwasanaethau os byddai'r gwyliau wedi eu cymryd. Byddai'n edrych yn afresymol ac annheg i'w cosbi yn y math amgylchiadau trwy golli unrhyw falans dros y 5 diwrnod caniataol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd aelod o'r Cabinet, wrth nodi ymdrechion y staff i gynnal y gwasanaeth a ddarperir, am fwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad gyda'r staff. Esboniodd swyddogion bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda Chyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth, a bod pob un ohonynt yn hapus gyda'r argymhellion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) Y dylid cytuno bod Penaethiaid Gwasanaeth (neu Uwch Reolwr) yn trafod gyda'r staff sydd â gweddilliau gwyliau blynyddol dros 5 diwrnod yn eu trosglwyddo, p'un a ydynt yn dymuno i'r absenoldeb blynyddol gormodol gael ei dalu i fyny neu ei ychwanegu at falans eu gwyliau blynyddol ar gyfer 2021.

Ni ddylai Aelodau o’r tîm Arwain a effeithir dderbyn cynnig o daliad. Er eglurder, y tîm Arwain yw'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth.

ii) Y dylid cytuno bod hon yn sefyllfa unwaith ac am byth i fynd i’r afael ag effaith y pandemig ar wasanaethau yn 2020 ac nid yw’n newid i’r Polisi

iii) Y dylid cytuno pan delir am y gwyliau gormodol dylai’r gost ddod o gyllidebau refeniw gwasanaeth craidd

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW CYFAN-AWDURDOD (Cyfnod 9)

Cafodd yr adroddiad hwn ei hystyried gan Bwyllgor Polisi a Chraffu Adnoddau ar 23 Chwefror 2021 yn darparu manylion o'r sefyllfa bresennol o ran cyllid wedi ei dderbyn o Lywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â chostau ychwanegol, ac incwm a gollir o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19 cyfredol.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion sefyllfa rhagamcanol cyllideb refeniw 2020/21 yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ym mis 9 y flwyddyn ariannol gyfredol. Darparwyd sylwebaeth hefyd trwy gydol yr adroddiad ar yr amrywiadau mwy sylweddol yn erbyn y gyllideb.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn meysydd penodol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) Dylid nodi'r adroddiad;

ii) Y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn sy'n dod i gyfanswm o £648k yn cael ei gynorthwyo fel y manylir yn Adran 5.3 o’r adroddiad.

## 7. FFRAMWAITH LLES A LLUNIO LLEOEDD CAERFFILI

Oherwydd ymrwymiadau cyfarfod blaenorol, ymunodd y Prif Weithredwr, C. Harrhy, â’r cyfarfod i ystyried yr eitem hon.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a oedd wedi cael ei hystyried gan y Cyd-bwyllgor Craffu ar 22 Chwefror 2021 a darparu diweddariad ar rai o’r buddsoddiadau cyfalaf sylweddol a wnaethpwyd yn y blynyddoedd diweddar ar draws amcanion lles y Cyngor ac wedi cynnig cyfres o brosiectau a fydd yn ffurfio sylfaen i Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd y Fwrdeistref Sirol gyfan.

Nododd yr adroddiad fecanwaith ymgysylltu â'r gymuned arfaethedig sy’n galluogi i rhanddeiliaid allweddol gael cyfle i lunio a mireinio’r Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd yn y dyfodol.

Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn datblygu Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd ers gwanwyn 2020. Mae’r Fframwaith wedi ei adeiladu ar amrywiaeth eang o fuddsoddiadau cyfalaf ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi ei ddatblygu i ystyried:

- Rhaglenni buddsoddi aml-flwyddyn hir-sefydlog presennol;
- Cyfleoedd cyllido a buddsoddi presennol ac sy’n dod i'r amlwg;
- Blaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol;
- Angen sydd eisoes wedi’i nodi;
- Cyfleoedd prosiect cydweithredol;
- Cyfleoedd Masnachol sy’n dod i’r amlwg;
- Fframwaith Adfer Strategol y Cyngor;

Mae drafft Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd fel y nodir yn adran 5.8 yn cynnwys rhestr o fuddsoddiadau posibl ar draws Caerffili gwerth dros £231 miliwn sy'n cyd-fynd yn benodol â'r Cyngor a’i Amcanion Lles mabwysiedig.

Nodwyd bod y fframwaith fuddsoddi hwn yn darparu cyfle i adeiladu, atgyweirio ac adnewyddu seilwaith allweddol ac asesiadau ar draws hyd a lled Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â hyrwyddo'n benodol y nodau a'r cyfeiriad polisi a osodwyd yn flaenorol o fewn strategaethau fel Cynllun Corfforaethol y Cyngor, y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol (SARS), Strategaeth Adfywio’r Cyngor “Sail i Lwyddiant 2018-2023” yn ogystal â’r cynigion cyffrous o fewn y Rhaglen Band B Ysgolion y 21ain Ganrif.

Mae'r cynnig fframwaith hwn o'r pwys mwyaf ar hyn o bryd, gan ei fod yn cynnig elfen bwysig o gynllun adfer COVID-19 y Cyngor, sy’n bwriadu cefnogi cymunedau wrth iddyn nhw ddechrau dod allan o’r pandemig COVID-19. Mae buddsoddiadau hir dymor mewn seilwaith fel yr hyn sy’n cael ei awgrymu o fewn y Fframwaith hwn, yn cynnig potensial i ail-gydbwyso'r economi leol, gwella cynhyrchiant a chreu swyddi a chyfleoedd ledled Caerffili, sydd o bwysigrwydd mawr tra bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i gymunedau i ailadeiladu dyfodol cynaliadwy a gwydn ar ôl COVID-19. Mae’r cyfle’n bodoli i weithio gyda’n gilydd i greu Caerffili gwell a mwy llewyrchus i bawb, gan ymgorffori cyd-gymuned "Tîm Caerffili" a’r model arweinyddiaeth ddinesig o gyflawni.

Nodwyd bod angen i’r prosiectau a’r syniadau o fewn y Fframwaith gael eu datblygu i fod yn gynigion a fydd yn cael eu llunio trwy ymgysylltu a chraffu cymunedol cyn penderfynu gweithredu.

Mewn llawer o achosion, bydd y buddsoddiad i gefnogi’r prosiectau hyn yn gyfuniad o gyfalaf mewnol a grant allanol, gyda'r olaf hefyd yn destun prosesau cymeradwyo allanol perthnasol.

Mae’r rhaglen ymgysylltu barhaus a ddisgrifir yn adran 5.9 o’r adroddiad wedi ei dylunio yn benodol i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei fireinio'n barhaus dros y blynyddoedd i ddod â chyfleoedd ar gyfer cynigion Lles a Llunio Lleoedd y dyfodol i gael eu hychwanegu a’u hystyried wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Cafodd y Rheolwr Craffu ei wahodd i’r cyfarfod a darparodd drosolwg manwl o’r sylwadau ac atebion a gafodd eu gwneud yn y Cyd-bwyllgor Craffu ar 22 Chwefror. Nodwyd bod dadl hir yn ystod y cyfarfod a bod pryderon wedi cael eu codi ynghylch rhai o gynigion y prosiect o fewn yr adroddiad, fodd bynnag cefnogodd y Pwyllgor Craffu’r argymhellion yn yr adroddiad yn unfrydol.

Diolchodd y Cabinet yr Arweinydd a’r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad yn estynedig a chroesawodd y buddsoddiadau mewn meysydd allweddol fel Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif, ynghyd â Gofal Cymdeithasol fel darpariaeth seibiant. Roedd pob Aelod o’r Cabinet yn falch o gefnogi'r adroddiad a chynigion uchelgeisiol y prosiect o dan eu portffolios. Roedd pwyslais ar fuddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel cynyddu cyfleoedd swyddi a phrentisiaethau, prosiectau lleihau carbon a phrosiectau yn seiliedig ar y gymuned sy’n annog ymgysylltu â'r gymuned sydd i gyd yn darparu buddiannau ariannol i’r Awdurdod Lleol, fel y manylir yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) Ystyried y safbwyntiau a'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr holl Bwyllgorau Craffu ar 22 Chwefror 2021.

ii) Nodi buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd, gwerth dros £153 miliwn sydd wedi eu hymgymryd rhwng 2017 a 2020 fel y'i nodwyd yn adran 5.6 yr adroddiad;

iii) Nodi buddsoddiadau Lles a Llunio Lleoedd sydd wedi eu cymeradwyo sydd gwerth dros £129 miliwn, fel y'i nodwyd yn adran 5.7 yr adroddiad;

iv) Y dylid cytuno bod y prosiectau sydd wedi eu nodi yn adran 5.8 sydd gwerth dros £231 miliwn yn ffurfio Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd cychwynnol y Cyngor o 2021 ymlaen, gan greu map ffordd cynaliadwy a chydnerth i'n dod allan o'r pandemig COVID-19 yn gryfach;

v) Y dylid cytuno y gellir datblygu'r prosiectau a nodwyd yn adran 5.8 yn achosion busnes i'w ystyried;

vi) Y dylid cydnabod bod angen i bob cynnig fynd drwy'r prosesau ymgynghori, craffu, cymeradwyo cyllid a phenderfynu perthnasol cyn eu gweithredu;

vii) Y dylid cytuno ar y mecanweithiau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned fel y'u nodir yn adran 5.9 yr adroddiad;

viii) Nodi cymeradwyaethau cyllido gwerth cyfanswm o £28.591 miliwn sydd eisoes wedi'u cadarnhau ar gyfer Fframwaith Llunio Lleoedd fel y nodwyd yn Adran 10 yr adroddiad;

ix) Cymeradwyo argymhelliad bod cyllid gwerth £1.640 miliwn sydd wedi'i ddal yng nghyllideb Cyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol at Wariant Cyfalaf (RCCO) 2020/21 hefyd cael ei glustnodi i'r Fframwaith Llunio Lleoedd, a fyddai'n cynyddu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i £30.231 miliwn.

x) Y dylid cytuno bod cyd-gyfarfod o'r holl Bwyllgorau Craffu yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn i ystyried cynnydd y Fframwaith Lles a Llunio Lleoedd.

xi) Cytuno i gael adroddiad ar wahân ar y Gronfa Grymuso Gymunedol a fydd yn nodi'r mecanweithiau lle all Aelodau Etholedig, ynghyd â'u cymunedau, ddatblygu syniadau prosiect i'w ystyried o fewn y Fframwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.11am

Wedi ei gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021.

________________________

CADEIRYDD